

# Archwiliad Cyflog Cyfartal

Mawrth 2018



**EICH CYNGOR arleinamdani**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)  
**YOUR COUNCIL doitonline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal Archwiliad Cyflog Cyfartal fel y mae ar 31 Mawrth bob blwyddyn i gyflawni'r ddyletswydd benodol mewn perthynas â chyflwyno adroddiad blynyddol ynghylch Gwybodaeth am Gyflogaeth a Gwahaniaethau Cyflog ac arferion da fel yr argymhellir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae'r Archwiliad Cyflog Cyfartal yn gyson â'r dull a argymhellir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r dull hwn yn cynnwys pum prif gam.

- Cam 1 Penderfynu ar gwmpas yr archwiliad a nodi'r data sydd ei angen
- Cam 2 Nodi lle mae grwpiau gwarchoddedig yn gwneud gwaith cyfartal
- Cam 3 Casglu data cyflogau
- Cam 4 Nodi'r hyn sy'n achosi bylchau cyflog (os oes rhai)
- Cam 5 Datblygu cynllun gweithredu

Mae Deddf Cyflog Cyfartal 1970 yn rhoi tri diffiniad o waith cyfartal a sut y gellir ei asesu. Dyma'r tri diffiniad:

- "Gwaith tebyg" (gwaith sydd yr un peth neu sy'n debyg iawn)
- "Gwaith yr ystyrir ei fod yn gydradd" (ystyrir ei fod yn waith cydradd yn ôl cynllun gwerthuso swyddi)
- "Gwaith o werth cyfartal" (o'i gymharu o dan benawdau megis ymdrech a sgiliau)

Mae Archwiliadau Cyflog Cyfartal yn cael eu cynnal i gymharu cyflogau dynion a menywod ar draws yr Awdurdod ac i nodi ystodau oedran gweithwyr ar draws yr ystodau graddau. Mae bylchau cyflog rhwng dynion a menywod yn cael eu dadansoddi yn ôl gradd unigol yn ogystal â darparu bwlch cyflog cyffredinol ar gyfer yr Awdurdod.

Yn gyffredinol mae'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod wedi parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn o -21.2% o blaid dynion cyn cyflwyno statws unffurf i 17.5% yn 2016-17.

Mae'n debygol o barhau i ostwng o ganlyniad i ymrwymiad y Cyngor i dalu Tâl Atodol y Cyflog Byw yn ystod 2018/2019. Cyhoeddir y Bwlch Cyflog ar gyfer 2018/2019 yn yr Archwiliad Cyflog Cyfartal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno.